## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn caniatáu i aelodau hyd at bedair aelwyd (yn lle dwy) gytuno i gael eu trin fel un aelwyd (estynedig), sy'n golygu y gall aelodau o'r aelwydydd hynny ryngweithio â'i gilydd fel pe baent yn aelodau o un aelwyd;

(b) yn darparu bod gan bobl esgus rhesymol (o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau) i ymgynnull o dan do, mewn mangreoedd penodol, mewn grŵp o hyd at 30 o bobl—

- i ddathlu gweinyddiad priodas, neu ffurfiad partneriaeth sifil, sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020, neu
- i ddathlu bywyd person sydd wedi marw ac y mae ei angladd yn digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020.

(c) yn darparu, fel eithriad i'r rheol sy'n gwahardd pobl rhag cymryd rhan mewn cynulliadau awyr agored o fwy na 30 o bobl, y caiff digwyddiad awyr agored mwy ddigwydd cyhyd ag y bo—

- wedi ei drefnu yn unol â thelerau'r eithriad,
- wedi ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru,
- dim mwy na 100 o bobl yn bresennol (heb gynnwys personau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo), ac
- wedi ei gynnal yn unol ag unrhyw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru.

(d) yn egluro bod rheoliad 18(9B) o'r prif Reoliadau (derbynioldeb tystiolaeth) yn gymwys i unrhyw achos ac eithrio achos o dan y prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.